**PWYLLGOR SAFONAU**
**DYDD LLUN, 5 MEDI 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Cyfarfod mynychu o bell Dydd Llun, 5 Medi 2022

**YN BRESENNOL:** Julia Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr: Teresa Carberry, Andrew Parkhurst ac Antony Wren

**AELODAU CYFETHOLEDIG:**
David Wynn Davies, Jacqueline Guest, Gill Murgatroyd, a Mark Morgan

**YN BRESENNOL:**

Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 16. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst gysylltiad personol oedd yn peri rhagfarn ag eitem 7 ar y rhaglen: Trosolwg ar Gwynion Moesegol.

Datganodd Julia Hughes gysylltiad personol ag eitem 8 ar y rhaglen: Diweddariad ar Recriwtio Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned.

## 17. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2022 i'w cymeradwyo.

Materion yn codi

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd ynglŷn ag argaeledd dolenni i sesiynau hyfforddi ar dudalen yr Aelodau, dywedodd y Swyddog Monitro bod disgwyl i borth yr Aelodau 'fynd yn fyw' ym mis Medi a byddai recordiadau'r hyfforddiant a ddarparwyd yn rhan o broses gynefino'r Aelodau ar gael. Gan gyfeirio at hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, eglurodd y Swyddog Monitro y byddai sesiwn hyfforddi ychwanegol yn cael ei darparu ar 12 Hydref, ac er ei bod yn bennaf ar gyfer Cynghorwyr Tref a Chymuned, byddai hefyd yn gyfle ychwanegol i'r Aelodau fynd iddi. Gofynnodd y Cadeirydd a ellid darparu adroddiad cynnydd ar ddatblygu dolenni i sesiynau hyfforddi ar dudalen yr Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a hefyd ar bresenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi.

Rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad ar weithredu'r Cod Ymddygiad a thrafodaethau a oedd wedi'u cynnal â Llywodraeth Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru ynglŷn â therfynau amser ar gyfer argymhellion Adolygiad Penn. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd recordiad o Gynhadledd Safonau Cymru Gyfan 2022 ar gael. Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd eto wedi gallu cael copi gan Gyngor Gwynedd ond byddai'n parhau i fynd ar ôl un.

Cymeradwywyd y cofnodion, yn amodol ar fân newid sillafu ar dudalen 7 fel y cynigiodd Gill Murgatroyd ac yr eiliodd y Cynghorydd Teresa Carberry.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar fân newid sillafu, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 18. GODDEFEBAU

Dim.

## 19. DARPARU ADBORTH O'R CYFARFOD CYSWLLT MOESEGOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad oedd yn rhoi adborth o'r Cyfarfod Cyswllt Moesegol a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2022. Dywedodd fod y cyfarfod wedi trafod a chytuno sut y dylai'r Pwyllgor Safonau weithredu ei ddyletswydd newydd i wneud sylwadau ar gydymffurfiaeth â dyletswydd yr Arweinwyr Grwpiau i hyrwyddo ymddygiad da yn ei adroddiad blynyddol. Eglurodd y Swyddog Monitro y dylid cyfrif methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd yn achos posib' o dorri rheolau'r Cod Ymddygiad gan Arweinydd Grŵp. Roedd sut yr adroddai'r Pwyllgor ar lefelau cydymffurfio'n hynod bwysig. Roedd nodiadau'r Cyfarfod Cyswllt Moesegol a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2022 wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Gill Murgatroyd ynglŷn ag ymgynghori ag Arweinwyr Grwpiau, cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod dogfennau am y broses arfaethedig wedi'u rhannu â'r holl Arweinwyr Grwpiau i roi cyfle iddynt gyfrannu ac ymateb. Ar ôl trafod, cytunodd y Swyddog Monitro i gysylltu â'r Arweinwyr Grwpiau a oedd heb ymateb i geisio cael cadarnhad nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynigion. Dywedodd y Swyddog Monitro eto fod gan y Pwyllgor Safonau ddyletswydd i lunio Adroddiad Blynyddol o fewn 12 mis a oedd yn cynnwys sylwadau am lefelau cydymffurfio'r Arweinwyr Grwpiau.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan Jacqueline Guest ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Teresa Carberry.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cyflwyno'r ddyletswydd newydd i wneud sylwadau am gydymffurfiaeth Arweinwyr Grwpiau â'u dyletswydd i hyrwyddo ymddygiad da fel y trafodwyd ac y cytunwyd yn y Cyfarfod Cyswllt Moesegol; a

(b) Rhoi gwybod i'r Arweinwyr Grwpiau am y broses a fabwysiadwyd.

## 20. YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL Â CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad i gynllunio a pharatoi at ymweliadau Aelodau Annibynnol â Chynghorau Tref a Chymuned. Rhoddodd wybodaeth gefndir gan ddweud y cytunwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 10 Ionawr 2022 y byddai cyfres newydd o ymweliadau'n cael eu trefnu ar ôl yr

etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor wedyn ar 6 Mehefin 2022, cytunwyd y byddai hyn yn cael ei gynnwys fel eitem ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod y canllawiau awgrymedig i gael eu mabwysiadu yn ystod ymweliadau wedi'u nodi yn adran 1.04 yn yr adroddiad. Cyfeiriodd hefyd at yr arfer o'r blaen ar ôl cynnal yr ymweliadau, fod yr Aelodau Annibynnol yn darparu copi o unrhyw nodiadau a wnaed i Dîm y Gwasanaethau Democrataidd fel gwybodaeth gefndir a hefyd yn rhoi adborth ar lafar yn y cyfarfod.

Mewn ymateb i gais gan Gill Murgatroyd, eglurodd y Cadeirydd a'r Swyddogion fod adborth cyffredinol yn cael ei roi er mwyn cysondeb i Gynghorau Tref a Chymuned ar ôl ymweliadau, ac adborth penodol yn cael ei roi ar gais.

Ymatebodd y Dirprwy Swyddog Monitro i gais gan David Davies am eglurhad ar y gweithdrefnau yr oedd Aelodau Annibynnol i'w dilyn pe bai eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried yn ystod ymweliadau â chyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned. Gofynnodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst hefyd a ddylai Aelodau Annibynnol fod yn bresennol ai peidio wrth i eitemau cyfrinachol gael eu trafod yng nghyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned. Mewn ymateb, cyfeiriodd y Dirprwy Swyddog Monitro at gylch gwaith/pwrpas ymweliadau Aelodau Annibynnol, sef arsylwi ar weithdrefnau, a hyrwyddo safonau ymddygiad a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

Mewn ymateb i ymholiad gan Mark Morgan a David Davies ynglŷn â thalu lwfansau a threuliau am fynd i gyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned, dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n codi'r mater hwn yng nghyfarfod nesaf y Swyddogion Monitro yr wythnos honno a byddai'n rhoi adborth i'r Pwyllgor.

Cynigiwyd argymhelliad (1) yn yr adroddiad gan David Davies ac fe'i heiliwyd gan Mark Morgan.

Cynigiwyd argymhelliad (2) yn yr adroddiad gan Jacqueline Guest ac fe'i heiliwyd gan Gill Murgatroyd.

Cynigiwyd argymhelliad (3) yn yr adroddiad gan Mark Morgan ac fe'i heiliwyd gan David Davies.

Cynigiwyd argymhelliad (4) yn yr adroddiad gan Gill Murgatroyd ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Teresa Carberry.

Cynigiwyd argymhelliad (5) yn yr adroddiad gan David Davies ac fe'i heiliwyd gan Mark Morgan.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo i'r Swyddogion lunio rhestr o Gynghorau Tref a Chymuned a dyddiadau eu cyfarfodydd ar gyfer 2022/23 i'w hanfon at Aelodau Annibynnol er mwyn iddynt hwy ddewis i gyfarfodydd pa Gynghorau Tref a Chymuned roeddent am fynd;

(b) Ysgrifennu at Gynghorau Tref a Chymuned yn egluro y bydd y broses o gynnal ymweliadau'n digwydd eto yn 2022/23;

(c) Bod adrodd ar ymweliadau â Chynghorau Tref a Chymuned gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor yn seiliedig ar lwyth gwaith y Pwyllgor, ac eithrio lle’r oedd materion brys a bod angen adborth arnynt, a byddai’r rhain yn cael eu rhoi ar raglen y cyfarfod nesaf;

(d) Bod yr Aelodau oedd yn cynnal ymweliadau â Chynghorau Tref a Chymuned yn gwneud nodiadau ysgrifenedig oedd yn addas i’w datgelu a’u rhannu fel adborth â Chynghorau Tref a Chymuned ar gais; a

(e) Bod yr Aelodau’n rhoi gwybod i’r Swyddog Monitro am ymweliad â Chyngor Tref neu Gymuned ac yn anfon eu nodiadau ysgrifenedig o’r ymweliad ato, cyn gynted â phosib’ ar ôl cynnal yr ymweliad, at ddibenion cynllunio rhaglen y Pwyllgor.

## 21. TROSOLWG O GWYNION MOESEGOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro’r adroddiad a roddai grynodeb ar y cwynion moesegol a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn honni bod y Cod wedi’i dorri. Dywedodd y Swyddog Monitro fod yr adroddiad yn rhoi dealltwriaeth i’r Pwyllgor am nifer y cwynion a’r mathau o gwynion oedd yn cael eu gwneud a’r canlyniad ar ôl i Swyddfa’r Ombwdsmon eu hystyried.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod 5 cwyn wedi’u derbyn ers yr adroddiad diwethaf. O’r 3 achos yr oedd penderfyniad arnynt, ni ymchwiliodd yr Ombwdsmon i unrhyw un gan eu bod wedi methu prawf yr 2il gam. Er mwyn cyflymu’r gwaith o brosesu’r cwynion, roedd yr Ombwdsmon yn rhoi cynnig ar ddull gwahanol o asesu cwynion lle’r oedd yn penderfynu a oedd angen ymchwiliad ai peidio cyn rhoi gwybod i’r Swyddog Monitro neu Gynghorydd. Roedd ymchwiliad i 4 cwyn ar fynd ar hyn o bryd (3 wedi’u gwneud yn 2022/23 ac 1 ar ôl ers 2021/22). Roedd y cwynion oedd yn destun ymchwiliad yn ymwneud ag amryw faterion heb unrhyw batrwm cyffredin. Roedd rhestr o’r cwynion a gafwyd yn ystod 2022/23 wedi’i hatodi i’r adroddiad.

Cynigiwyd argymhelliad yr adroddiad gan y Cynghorydd Antony Wren ac fe’i heiliwyd gan Gill Murgatroyd.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r nifer a’r math o gwynion.

## 22. DIWEDDARIAD AR RECRIWTIO CYNRYCHIOLYDD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i roi gwybod am gynnydd wrth recriwtio cynrychiolydd newydd i Gynghorau Tref a Chymuned. Roedd angen i’r Pwyllgor Safonau gynnwys cynrychiolydd i Gynghorau Tref a Chymuned. Roedd yn rhaid i’r cynrychiolydd fod yn Gynghorydd a oedd yn gwasanaethu ar Gyngor Tref neu Gymuned, ond ni allai fod yn Gynghorydd Sir hefyd. Gofynnwyd i Gynghorau Tref a Chymuned enwebu ymgeiswyr posib’. Roedd cyfanswm o 6 ymgeisydd ac roedd pob un wedi darparu ysgrif-bortread a oedd wedi cael ei

anfon at yr holl Gynghorau. Gofynnwyd i’r Cynghorau enwebu eu dewis cyntaf a’u hail ddewis fel cynrychiolydd. Yr ymgeisydd oedd â’r nifer uchaf o bleidleisiau fyddai’n cael ei ddewis. Pe bai’n gyfartal, byddai’r ymgeisydd â’r nifer mwyaf o bleidleisiau fel dewis cyntaf yn cael ei ddewis. Byddai’r penodiad ffurfiol yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn ar 18 Hydref 2022.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan Mark Morgan ac fe’i heiliwyd gan y Cynghorydd Teresa Carberry.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi’r broses i benodi cynrychiolydd i’r Cynghorau Tref a Chymuned.

## 23. DIWEDDARIAD AR GREU FFORWM CENEDLAETHOL I AELODAU ANNIBYNNOL

Rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad i’r Pwyllgor ar lafar yn nodi a oedd digon o gefnogaeth i sefydlu Fforwm Cenedlaethol i Aelodau Annibynnol. Rhoddodd wybodaeth gefndir ar y mater gan ddweud bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi cytuno i ddarparu cefnogaeth ysgrifennydd i Fforwm Cenedlaethol i Aelodau Annibynnol. Soniodd am aelodaeth arfaethedig y Fforwm a nifer y cyfarfodydd a fyddai’n cael eu cynnal bob blwyddyn. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai’n cyflwyno cynigion yng nghyfarfod nesaf y Swyddogion Monitro ac y byddai’n rhoi gwybod i’r aelodau am ganlyniad y cyfarfod hwnnw yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 7 Tachwedd 2022.

## 24. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol i’w hystyried.

Awgrymodd Gill Murgatroyd y dylai’r eitem ar Adborth o Ymweliadau Aelodau Annibynnol â Chynghorau Tref a Chymuned hefyd gael ei chynnwys i gael ei hystyried yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ar 7 Tachwedd 2022 a 9 Ionawr 2023. Cytunwyd ar hyn.

Yn dilyn awgrym gan y Cadeirydd, cytunwyd i’r eitem ar yr Adroddiad Blynyddol Drafft, a oedd wedi’i threfnu i gael ei hystyried yn y cyfarfod i’w gynnal ar 6 Mawrth 2023, gael ei symud i 8 Mai 2023 er mwyn caniatáu cynnwys adborth gan Arweinwyr Grwpiau ar y ddyletswydd i hyrwyddo ymddygiad da fel y trafodwyd ac y cytunwyd yn y Cyfarfod Cyswllt Moesegol.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Mark Morgan ac fe’i heiliwyd gan y Cynghorydd Teresa Carberry.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo’r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y’i diwygiwyd.

## 25. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.30pm, a daeth i ben am 8.03pm)

..................................................

**Cadeirydd**